# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Min y Môr**

**Cartref Preswyl Min y Môr**
**Maes yr Heli**
**Aberaeron**
**SA46 0BQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Min y Môr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Mawrth 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn canmol y gofal o ansawdd uchel y maent yn ei gael. Cânt eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar a charedig, y maent wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â nhw. Mae ymdeimlad teuluol yn y gwasanaeth, ynghyd â ffocws sylweddol ar weithgareddau ysgogol ac ystyrlon.

Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad diwethaf oherwydd yr amgylchedd gwael a'r effaith yr oedd yn ei chael ar y bobl. Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran y gwaith sydd ei angen i ddatrys y materion hyn ac, felly, mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau ar agor.

Mae'r rheolwr wedi creu diwylliant cadarnhaol ac mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn gwerthfawrogi hyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy ei ymweliadau a'i archwiliadau mewnol yn helpu i lywio'r adolygiad o ansawdd y gofal, a gynhelir bob chwe mis.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal creadigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl am fod y rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud pethau sy'n bwysig iddynt, fel cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol, cymdeithasu â'i gilydd a chwrdd â'u hymwelwyr yn y cartref. Mae ymdeimlad cryf o gymuned yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn ei ddisgrifio fel teulu ac yn cyfrannu drwy gynnig cymorth i'w gilydd. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r tîm cyfan o staff yn hamddenol, yn llawn hwyl ac yn ofalgar. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ac maent yn cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y mynnant.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed am fod y prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu a hyfforddiant parhaus, ac maent yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwr.

Mae'r amgylchedd cyffredinol yn dal i fethu â chefnogi'r bobl i gyflawni canlyniadau. Mae angen gwneud gwaith addurno i gefnogi llesiant y bobl yn well, am fod y décor wedi dyddio a'i ddifrodi. Mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol mewn perthynas â hyn yn parhau ar agor. Mae gan y darparwr gynllun diweddaru manylach ar waith i ddatrys y materion hyn, ac rydym yn disgwyl gweld gwelliannau yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae gan y bobl lais am eu bod nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn yr ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth rhagorol y maent yn eu cael. Mae ymdeimlad teuluol yn y gwasanaeth a gwelsom lawer o ryngweithio cyfeillgar rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Dywedodd unigolyn wrthym, *"I can assure you the staff are excellent".* Mae'r gweithwyr gofal ymroddedig yn deall anghenion y bobl, yn eu parchu fel unigolion ac yn meithrin cydberthynas llawn ymddiriedaeth â nhw. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"I like being here for people and making a difference, it's so rewarding".* Mae'r cynrychiolwyr yn gwerthfawrogi'r gofal a'r cymorth effeithiol a roddir a dywedodd un ohonynt wrthym, *"The staff are fabulous, I couldn't fault them, the care is fantastic and they are all great".*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau personol, sy'n cynnwys hanes bywyd manwl iawn. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu bob tri mis er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys. Mae asesiadau risg yn cefnogi'r bobl i gynnal eu hannibyniaeth, ac yn eu helpu i gadw mor ddiogel â phosibl.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor gymdeithasol â phosibl ac i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teuluoedd. Mae cydgysylltydd creadigol a brwdfrydig yn cefnogi'r bobl i gynllunio a threfnu eu gweithgareddau ar gyfer y mis i ddod. Caiff gweithgareddau fel celf a chrefft, gemau a chwisiau eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r bobl hefyd yn mwynhau darllen papurau newydd a llyfrau, gwylio'r teledu a rhyngweithio â'i gilydd. Caiff adloniant allanol ei drefnu yn unol â diddordebau'r bobl a chaiff y diwylliant lleol a diwylliant Cymru eu dathlu. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau crefyddol yn cael eu cynnal yn y gwasanaeth a bod cantorion, cerddorion, plant ysgol, pobl leol, beirdd a pherfformwyr o'r West End yn ymweld yn rheolaidd. Gall yr unigolion ddilyn eu diddordebau penodol eu hunain a dywedodd person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym am ei phrosiectau codi arian amrywiol ar gyfer elusennau lleol.

Mae'r bobl yn mwynhau cwmni ei gilydd ac maent yn ffynhonnell wych o gefnogaeth i'w gilydd. Caiff perthnasau eu cynnwys yn weithredol yn y gwasanaeth drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau a'r digwyddiadau gwahanol niferus. Dywedwyd wrthym fod pawb yn mwynhau sgwrsio ag ymwelwyr â'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn diwallu anghenion y bobl yn effeithiol a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar, pwyllog ac amyneddgar yn ystod yr arolygiad.

## Yr Amgylchedd

Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr yn dilyn yr arolygiad llawn diwethaf. Nid yw'r darparwr wedi gwneud unrhyw welliannau i'r meysydd a nodwyd yn yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth. Gwnaethom gwrdd ag aelod newydd o dîm datblygu eiddo y darparwr, sydd â chynllun clir a strwythuredig ar waith i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol. Dywedodd wrthym fod deunyddiau a chontractwyr ar waith i ddechrau gosod drysau tân newydd yn systematig. Pan fydd y drysau newydd wedi'u gosod, bydd y gwaith sylweddol i ddiweddaru'r décor a gosod lloriau newydd yn dechrau.

Mae gan y darparwr gynllun i ymdrin â'r diffygion yn yr adeilad ac i adnewyddu'r décor. Fodd bynnag, bydd yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau ar agor.

Mae'r bobl yn gartrefol ac yn gyfforddus yn yr ardaloedd cymunedol gwahanol. Caiff yr ardaloedd cymunedol eu defnyddio'n rheolaidd gan y bobl i gymdeithasu â'i gilydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau a diddanu ymwelwyr. Gall yr unigolion bersonoli eu hystafelloedd â'u lluniau, eu hornamentau a'u dodrefn eu hunain. Mae'r bobl yn defnyddio'r gerddi ac yn manteisio i'r eithaf ar y golygfeydd o'r cartref pan fydd y tywydd yn braf.

Cynhelir archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae'r darparwr yn gweithio drwy'r camau gweithredu a argymhellwyd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau tân. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Mae'r gegin wedi ennill sgôr hylendid bwyd o bump, ac mae'r staff arlwyo yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau pawb. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref ffres ac yn edrych ymlaen at amseroedd bwyd gyda'i gilydd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen gwella'r cyfnod o amser y mae'n ei gymryd i ddatrys y materion o ran yr adeilad a nodwyd yn yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth sydd ar waith a'i archwiliadau ei hun, o hyd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r cartref yn effeithiol ac yn gofyn am adborth ar y gwasanaeth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal bob tri mis. Gwelsom y caiff yr adborth a roddir gan bobl mewn arolygon ac archwiliadau amrywiol ei ddefnyddio yn yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal, a gynhelir bob chwe mis.

Mae'r Rheolwr yn weladwy iawn yn y gwasanaeth ac yn adnabod y bobl yn dda. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar rhwng y rheolwr â'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth effeithiol yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwr yn gefnogol iawn a'u bod yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored. Dywedodd un ohonynt, *"[Manager] is great, easy to talk to and knows the residents".*

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, a gallant drafod unrhyw beth â'r rheolwr, unrhyw bryd. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"She's (manager) good and she gets things sorted. She's very supportive and flexible".* Mae trafodaethau â'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o ddiogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw faterion yn briodol. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n cefnogi arferion da.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth Mae'r rhain yn cynnwys geirdaon, gwiriadau hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae aelodau newydd o staff yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae amrywiaeth o hyfforddiant e-Ddysgu ac wyneb yn wyneb yn helpu'r staff i ddiwallu anghenion y bobl, a dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym, *"I learnt a lot on the last face to face session".* Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

Mae niferoedd digonol o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl yn effeithiol. Mae llawer o'r gweithwyr gofal wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac yn deall anghenion a dewisiadau pob person. Dywedodd unigolyn wrthym, *"They are wonderful. The staff are so good".*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Y dystiolaeth<br><br>Roedd yr amgylchedd eisoes wedi'i nodi fel Maes i'w Wella yn dilyn ein harolygiad llawn diwethaf (17.08.2021). Nid yw'r darparwr wedi cwblhau'r cynllun addurno a oedd ganddo ar waith a nodwyd y canlynol yn ystod yr arolygiad. Papur wal yn plicio, a gwaith paent wedi'i ddifrodi. Carpedi a lloriau sy'n hen ac wedi'u difrodi. Ystafelloedd gwely â dodrefn a décor wedi'u difrodi, nad oeddent yn cydweddu â'i gilydd. Mae'r staff a chynrychiolwyr y bobl eisiau gweld gwelliant o ran décor y cartref er mwyn gwella ansawdd bywydau'r bobl. Yr effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw nad yw'r amgylchedd yn | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| | cefnogi llesiant y bobl. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/06/2024